



Adroddiad Arolygu

Cylch Meithrin Maesincla

**Ysgol Gynradd Maesincla
Caernarfon
LL55 1DF**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

This report is also available in English



Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21/10/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chylch Meithrin Maesincla

Math o ofal a ddarperir	Gofal plant dyddiol Gofal dydd llawn
Unigolyn cofrestredig	Manon Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	26
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	30 Ionawr 2018
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae hwn yn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae ganddynt ystod o weithgareddau diddorol i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn fodolau rôl da ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac amrywiol i sicrhau bod plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn lân ac yn darparu digon o le ac adnoddau amrywiol o ansawdd da i hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth weledigaeth gref ac maent yn sicrhau bod staff yn gymwys, yn brofiadol ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn cwblhau adolygiadau manwl o ansawdd gofal ac mae ganddynt bartneriaethau effeithiol gyda rhieni, yr ysgol a gweithwyr proffesiynol, er budd y plant.

Llesiant

Mae gan y plant gyfleoedd da i ddewis drostyn nhw eu hunain a chwarae gyda'r hyn maen nhw ei eisiau a gyda phwy. Gwerthfawrogir eu diddordebau a gweithredir arnynt. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddo, gwnaeth aelod o staff ddarllen stori i blentyn yn yr ardal dawel a chyfforddus. Mae gan blant lais, ac maent yn cael penderfynu a ydynt am chwarae y tu mewn neu'r tu allan ac mae eu dewis yn cael ei barchu.

Clywir plant yn hapus yn sgwrsio â staff, ac yn ymgartrefu'n gyflym i'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, maent yn ymolchi eu dwylo cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd a chyn iddynt ddechrau chwarae. Mae gan y plant berthynas annwyl gyda'r staff, ac maent yn dal eu llaw yn naturiol pan fyddant eisiau help neu sicrwydd.

Mae plant yn dysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff. Er enghraifft, maent yn chwarae'n braf ochr yn ochr â'i gilydd, gan rannu adnoddau a chymryd eu tro. Fe'u hanogir i ddefnyddio moesau da trwy ddweud os gwelwch yn dda a diolch. Mae plant yn dysgu sut i ddangos parch trwy annerch staff fel 'Miss' wrth siarad â nhw.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn cael hwyl yn chwarae gêm ryngweithiol ac yn rhoi bloedd o fwynhad wrth lwyddo i reidio sgwter ar eu pen eu hunain. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dynnu'r hadau allan o bwmpen yn ofalus yn barod ar gyfer eu dathliad Calan Gaeaf. Maent yn gwenu fel giât ac yn chwerrthin pan fyddant yn dangos eu dwylo wedi'u paentio yn y gweithgaredd crefft i'r staff. Mae'r plant yn dyfalbarhau ac yn rheoli eu risgiau eu hunain. Maent yn benderfynol o weithio eu ffordd trwy'r ffrâm ddringo y tu allan, ac yn falch o'u hunain wrth iddynt ddefnyddio'r sleid ar y diwedd.

Mae'r plant yn dysgu i fod yn annibynnol. Maent yn ceisio gwisgo eu cotiau cyn mynd adref a cheisio eu gorau i ymolchi eu dwylo yn iawn, gyda chymorth gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n ddychmygus yn y tŷ bach twt y tu mewn neu yn y gegin fwd y tu allan. Mae ganddynt ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith trwy'r sgysiau niferus maent yn eu cael gyda staff.

Gofal a Datblygiad

Mae staff yn deall eu rôl wrth gadw plant yn ddiogel. Maent yn dilyn gweithdrefnau manwl COVID-19 ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon yn ymwneud â diogelwch plentyn.

Mae gan staff dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol fel y gallent roi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen. Maent yn cwblhau cofrestrau presenoldeb dyddiol ynghyd â chofnodion ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae staff yn hybu iechyd a hylendid da. Maent yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau a diodydd iach, ac yn cael digon o gyfle i chwarae yn yr awyr agored. Mae arwynebau'n cael eu glanhau cyn bwyta ac ar ôl bwyta. Mae'r staff a'r plant yn ymarfer ar gyfer ymarferion tân, felly dylent wybod beth i'w wneud os bydd argyfwng.

Mae'r staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn eu canmol yn ystyron trwy gydol ein hymweliad. Er enghraifft, maent yn dweud 'waw' yn frwdfrydig pan fydd plentyn yn gwneud rhywbeth da, a 'da iawn' pan fydd plentyn yn cyflawni ei nod. Mae staff yn hyrwyddo moesau da yn gyson ac maent yn fodolau rôl da. Maent yn eistedd gyda'r plant wrth iddynt chwarae ac yn siarad â nhw mewn llais gofalgaf, ysgafn.

Mae staff yn defnyddio eu harsylwadau ac yn cadw cofnodion ysgrifenedig o gynnydd y plant er mwyn cynllunio eu camau datblygu nesaf. Maent yn hyrwyddo dysgu wrth iddynt eistedd gyda'r plant sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau dyddiol. Er enghraifft, maent yn siarad am y gweadau maent yn eu defnyddio ac yn enwi'r lliwiau wrth iddynt beintio. Mae'r staff yn gwneud dysgu'n hwyl, ac yn cadw'n heini ochr yn ochr â'r plant yn ystod gweithgarwch corfforol. Maent yn canu caneuon ac yn dawnsio i'r gerddoriaeth, gyda phawb yn gwenu ar ei gilydd ac yn chwerthin. Mae'r staff yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol yn llawn i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i ddiwallu holl anghenion y plant yn llwyddiannus.

Gwnaeth rhieni sylwadau cadarnhaol am y staff a'u cymorth i'r plant yn ystod y pandemig. Roeddent yn gwerthfawrogi cael eu diweddarw drwy'r 'ap' a ddefnyddir gan staff i rannu gwybodaeth am eu plentyn gyda nhw bob dydd.

Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr adeilad yn lân ac yn ddiogel trwy weithredu gwiriadau glanhau a diogelwch bob dydd. Mae'r drysau allanol a'r ardal chwarae awyr agored gaeëdig i gyd dan glo ac mae angen cod i'w hagor, sy'n diogelu'r adeilad rhag mynediad heb awdurdod. Ceir rhestr wirio fanwl i'r ymwelwyr ei chwblhau cyn iddynt ddod i mewn, yn unol â gweithdrefnau COVID-19. Mae angen i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael. Mae'r systemau hyn yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod plant a staff yn cael eu gwarchod.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan blant ddigon o le i symud o gwmpas mewn amgylchedd diogel, croesawgar a threfnus sy'n hyrwyddo eu datblygiad. Maent yn sicrhau bod gan blant ymdeimlad o berthyn wrth i'w gwaith crefft gael ei arddangos a bod ganddynt eu pegiau lefel isel eu hunain i hongian eu heitemau personol. Mae cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant ac yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, mae ardal newid cewynnau ynghyd â thoiledau lefel isel a chyfleusterau ymolchi dwylo. Ceir ardaloedd chwarae a dysgu diddorol, sy'n hawdd i'r plant eu cyrraedd. Mae'r drws yn cael ei adael ar agor fel y gall y plant chwarae dan do neu y tu allan ac mae'r ystafell chwarae flêr wedi'i gosod yn dda fel bod plant yn gallu arbrofi a dysgu. Mae'r brif ystafell chwarae a'r ardaloedd eraill i gyd yn olau, wedi'u haddurno'n llachar ac wedi'u cynllunio'n dda gydag ystod eang o adnoddau i annog plant i archwilio a dysgu trwy chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan blant ystod eang o adnoddau glân sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r rhain yn annog chwilfrydedd naturiol plant i ddysgu a datblygu trwy chwarae. Er enghraifft, mae'r adnoddau fel y gefelau yn y gegin fwd, yn helpu i ddatblygu sgiliau echddygol manwl y plant. Mae gweithgaredd synhwyradd lliwgar, wedi'i becynnu'n dda ac yn gwahodd plant i ddefnyddio eu holl synhwyrddau ac i archwilio. Mae'r gweithgareddau i annog plant i fod yn ddychmygus yn cael eu cadw a'u dodrefnu'n dda. Mae dewis da o deganau ac offer wedi'u gwneud allan o bren. Trwy gydol y gwasanaeth, mae digon o deganau ac offer addas sy'n briodol i'w hoedran yn cynnal ac yn meithrin diddordeb plant mewn chwarae a dysgu.

Arwain a rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn llawn cymhelliant ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu canlyniadau cadarnhaol a llwyddiannus i blant. Er enghraifft, mae gweithdrefnau cryf a sefydledig ar waith ar gyfer olrhain datblygiad plant a chynllunio eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cwrdd â rheoliadau a safonau. Mae'r datganiad o bwrpas yn rhoi gwybodaeth i rieni am y gwasanaeth fel y gallant benderfynu a yw'n gweddu i'w hanghenion hwy a'u plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg yn llawn gan fod y staff yn rhugl yn yr iaith, ac mae'r holl bolisiau, gweithdrefnau a gwybodaeth ar gael yn Gymraeg. Mae polisiau a gweithdrefnau'n canolbwyntio ar anghenion plant, a chânt eu diweddarau yn ôl yr angen a'u deall gan staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal adolygiad manwl o'u gwasanaeth yn flynyddol ac yn cynhyrchu adroddiad. Roedd yr adborth a dderbyniwyd ac a nodwyd yn yr adroddiad yn hynod gadarnhaol am y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaeth y sefydliadau sy'n defnyddio'r gwasanaeth sylwadau ar eu cydberthnasau rhagorol a pha mor dda y gwnaeth staff eu helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfle gorau i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Nododd y rhieni a gwblhaodd ein holiaduron AGIC pa mor dda yr oedd staff yn cyfathrebu â hwy, byddent yn argymhell y gwasanaeth i eraill ac 'mae pob aelod o staff yn wych'. Mae'r gwelliannau cadarnhaol a buddiol a wnaed er lles y plant yn cynnwys datblygu eu man chwarae awyr agored. Mae gwelliannau pellach ar y gweill i ymestyn yr ardal chwarae awyr agored. Mae'r newidiadau hyn yn dangos ymrwymiad i ddarparu buddion sylweddol i ddatblygiad a dysgu plant yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi staff yn eu rolau. Mae'r unigolyn â chyfrifoldeb wrth law bob dydd i gynorthwyo staff, a chadarnhaodd fod gwybodaeth sylweddol yn cael ei rhannu i'r tîm cyn i'r sesiynau ddechrau. Cytunodd i gadw mwy o fanylion ysgrifenedig am y cyfarfodydd hyn, a chofnodi ei thrafodaethau unigol â staff. Mae'r unigolyn cofrestredig yn gweithio ar y safle ac mae bob amser yn barod i gynnig cymorth ac arweiniad pan fo angen.

Mae ffeiliau'r staff yn drefnus ac roedd y rhai a archwiliwyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys cliriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd matrices hyfforddi staff yn cael ei gadw, gan ddangos eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant cymorth cyntaf gorfodol, gyda'r mwyafrif hefyd wedi mynychu sesiynau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae llawer o'r tîm staff yn mynychu cyrsiau fel Makaton, Y Blynyddoedd Rhyfeddol ac ELKLAN, ac mae pob un ohonynt yn datblygu eu gwybodaeth am ofal plant ifanc. Mae'r staff yn gweithio'n dda iawn fel tîm i sicrhau bod y sesiwn yn rhedeg yn llyfn. Cytunodd y rhai y siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau eu rolau ac yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn ddyddiol trwy gyfathrebu ar lafar a thrwy 'ap'. Mae rhieni'n gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth pan fydd anghenion ychwanegol yn cael eu nodi. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt o'r cychwyn cyntaf. Gan fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn yr ysgol, mae'r plant eisoes yn gyfarwydd â'u hamgylchedd.

Argymhellion i gwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A2. Cadw cofnodion o gyfarfodydd goruchwylio unigol gyda staff.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 21/12/2021